

Y Teithiau Cerdded

Mae golygfeydd gwych ar hyd llwybrau cerdded yr afon a cheir cyfle i weld amrywiaeth o fywyd gwyllt, yn ôl y tymor. Ar ddechrau'r haf mae torehn o flodau gwyllt: y lluglys gwyn, pinc a glas, clychau'r gog, botymau crys a charpedi melyn o flodau ymenyn a dant y llew. Mae digonedd o ffugbys, briwydd, suran y cŵn ac eithin a blodau gwyllt cyffredin eraill yn tyfu ym mhobman gyda chnydau o wlyddyn rhudd a chnau daear yn tyfu yma ac acw. Yn ddiweddarach yn yr haf mae pennau ewynnog yr erwain a blodau uchel bysedd y cŵn yn arglwyddiaethu.

Mae adar hefyd yn mwynhau cynefinoedd glan yr afon a gallwch weld crychydod, hwyaid a'r sigl-i-gwt, a chip o blu prydfarth glas y dorlan. Mae gwenoliaid y glennydd yn ymweld â'r fan yn aml yn ystod yr haf ac yn nythu ar ochrau serth yr afon. Efallai y byddwch yn ddigon ffodus i weld barcud coch a'i gynffon fforchog yn hedfan mewn cylchoedd uwch ben.

Cofiwch fanteisio ar y cyfle i ymweld â Choedwig y Dyn Tlawd, coetir derw hynafol lled naturiol, a roddwyd i drigolion Llanymddyfri yn y 16eg gan y Ficer Pritchard ac sydd bellach yn cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfed. Mae taith gylchol, serth mewn mannau, sydd oddeutu 2 awr o hyd. Ar ffordd yr A40 i Aberhonddu, tua 1km (0.6 milltir) i'r dwyrain o'r dref, trowch i'r chwith gyferbyn â safle carafanau/arwyddbost Myddfai a pharciwch ar y llwybr neu yn y cwar bach. Dilynwch y llwybr ar droed hyd at y fferm ac i lawr y lôn las at y fynedfa i'r warchodfa. Gellir cysylltu'r teithiau cerdded â Thaith Llwynywermod, sydd hefyd yn y gyfres hon.

Y Côt Cefn Gwlad

Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch

Parchwch bobl eraill

- Meddyliwch am gymuned yr ardal ac am y bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch glwydi ac eiddo fel yr oedden nhw ac arhoswch ar y llwybrau oni bai fod mynediad agored ar gael

Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw arwydd eich bod wedi bod yno, ac ewch â'ch sbwriel gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol

Mwynhewch a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff

- Cynlluniwch eich taith a byddwch yn barod am unrhyw beth annisgwyl
- Dilynwch y cyngor a'r arwyddion lleol

The Walks

The river footpaths offer delightful views and a wide variety of wildlife may be seen according to the seasons. Early summer offers a profusion of wild flowers; the pinks, blues and whites of Campions, Bluebells and Stitchworts are matched by the yellow expanses of Meadow buttercups and Dandelions. Later in summer the foamy heads of meadowsweet and tall spurs of Foxgloves dominate the scene.

Birds too enjoy the riverside habitats and you may see Herons, ducks and wagtails or the brilliant blue flash of a Kingfisher. Sand Martins are regular summer visitors which nest in the steep undercut river banks. You may be lucky enough to see a Red Kite, with its deeply-forked tail, circling overhead.

Whilst in the area take the opportunity to visit Poor Man's Wood, an attractive ancient semi-natural oak woodland, gifted to the people of Llandoverly in the 16th century by Vicar Pritchard and now managed by the The Wildlife Trust of South and West Wales. There is a circular walk, steep in parts, which will take about 2 hours. On the A40 Brecon road approx. 1km (0.6 miles) east of the town, turn left opposite the caravan park/Myddfai signpost and park on the track or in the small quarry. Follow the track on foot to the farm and down the green lane to the reserve entrance. The walks can be linked with the Llwynywormwood Walk, also in this series.

The Countryside Code

Respect, Protect, Enjoy

Respect other people

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them and follow paths unless wider access is available

Protect the natural environment

- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs under effective control

Enjoy the outdoors and stay safe

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs



Llanymddyfri



Llandoverly



Actif | Active
SIR GÂR CARMARTHENSIRE



Llanymddyfri

1. Castell Llanymddyfri

Mae hanes cyffrous iawn i'r castell, fel cadarnle i'r Normaniaid a'r Cymry. Mae gweddillion tŵr crwn a chragen o fur yn dyddio o'r 13eg ganrif i'w gweld heddiw. Dargyfeiriwyd nant fechan, y Dyfri, i ffurfio ffos o amgylch y castell.

2. Llanymddyfri - bwrdeistref a thref ganoloesol.

Derbyniodd y fwrdeistref siarter oddi wrth Rhisiart III yn 1485. Roedd yr enwog Rhys Pritchard, 1579-1644, yn ficer Llanymddyfri ac yn adnabyddus fel awdur y llyfr Cannwyll y Cymry, gwaith crefyddol poblogaidd yn yr iaith Gymraeg. Sefydlwyd Coleg Llanymddyfri yn hanner cyntaf y 19eg ganrif.

3. Heol Cerrig

Adeiladwyd Neuadd y Dref yn 1858, gyda Siambr y Cyngor uwch ben marchnad agored ag arcedau. Adeiladwyd Neuadd y Farchnad, sydd erbyn heddiw wedi'i hadnewyddu yn ganolfan grefftau, ddeng mlynedd yn gynharach gyda chloc y dref uwch ben. Roedd y dref yn enwog am wneud clociau, y symudiadau yn ogystal â'r casys.

Mae'r nifer fawr o dafarndai sy'n y dref yn dyddio o gyfnod y porthmyn. Mae'r King's Head wedi'i leoli ar safle Banc yr Eidon Du a sefydlwyd gan y Porthmon David Jones yn 1799. Roedd rhoi addawebau (wedi'u hysgythru â'r Eidon Du) yn golygu nad oedd angen i'r porthmyn gludo arian. Bu'r banc yno tan 1848.

4. Nant Bawddwr

Enwyd tref Llanymddyfri ar ôl yr afon leiaf sy'n ei hamgylchynu. Roedd y nant yn gweithredu fel carthffos agored - nid yw'n rhyfedd felly iddi gael ei galw yn Bawddwr. Yn 1836 lluniwyd cwlfer bwaog amdani a gosodwyd palmant y stryd drosti.

5. Rheilffordd Canolbarth Cymru

Gyda dyfodiad y rheilffordd daeth masnach y porthmyn a swyddogaeth y coetsys post i ben. Yng nghyfnod y coetsys (1780au - 1850au) roedd Llanymddyfri yn ganolfan goetsys bwysig ar y ffordd dyrpeg o Lundain, yr A40 erbyn hyn. Cyrhaeddodd y rheilffordd Llanymddyfri yn 1858, fel estyniad rheilffordd Dyffryn Tywi o Landeilo i dde ddwyrain diwydiannol Sir Gaerfyrddin. Cwblhawyd Rheilffordd Llundain a'r Gogledd-orllewin, o Craven Arms i Llanymddyfri yn 1868.

6. Y Gaer a'r Ffordd Rufeinig

Mae'r llwybr troed yn dilyn darnau o'r Ffordd Rufeinig. Roedd y Gaer Rufeinig yn Llanymddyfri (Alabum) wedi'i lleoli i'r dwyrain, yn Llanfair-ar-y-bryn, ac mae'r eglwys sy'n dyddio o'r Canol Oesoedd wedi'i lleoli yng nghornel y gaer. Gwelir olion y Ffordd Rufeinig yn glir, yn arwain

Llandovery

1. Llandovery Castle

The Castle has had a stirring history, both as a Norman and a Welsh stronghold with remains of a round tower or keep and a shell wall of 13th century date. A small stream, the Dyfri, was diverted to form a water-filled ditch around the castle.

2. Llandovery - medieval borough and town

The medieval borough received a charter from Richard III in 1485. The famous Rhys Pritchard, 1579-1644, was Vicar of Llandovery, remembered as the author of Cannwyll y Cymry 'The Welshman's Candle', a popular devotional work in the Welsh language. In the first half of the 19th century Llandovery College was founded.

3. Stone Street

The Town Hall was built 1858, with the Council Chamber above an open arcaded market. The former Market Hall, built a decade earlier and now renovated as a craft centre, is surmounted by the Town Clock. There was a long tradition of clockmaking in the town, both of the mechanisms and the cases. The large number of public houses in the town is an inheritance from droving days. The King's Head was the site of the famous Banc Yr Eidon Du or Bank of the Black Ox, founded by the Drover David Jones in 1799 and on this site until 1848. The issue of promissory notes (engraved with the Black Ox) reduced the need to carry cash

4. Nant Bawddwr

Llandovery takes its name from the least significant of all the rivers which encircle it. It served as an open sewer - no wonder it was called Bawddwr (dirty water, or Foulbrook). In 1836 it was put into an arched culvert and the streets paved over.

5. Central Wales Railway Line.

The railways dealt a death blow to the drovers' trade and to the mail coaches. In the 'coaching era' (1780s - 1850s), Llandovery was an important coaching centre on the turnpike road from London, now the A40. The railway reached Llandovery in 1858, an extension from Llandeilo of the Vale of Towy Railway from industrial south east Carmarthenshire. The London and North Western Railway from Craven Arms to Llandovery was completed in 1868.

6. Roman Fort and Roman Road.

The footpath follows some lengths of the Roman Road. The Roman Fort at Llandovery (Alabum) lay to the east, at Llanfair-ar-y-bryn - the medieval church is located in the corner of the fort. Clear traces of the Roman Road head northwestwards towards the next Roman Fort - Pumpsaint, guarding the Roman Gold Mines.

7. Dolauhiron Bridge.

There is mention of the 'bridge of Dolhir' in 1396, a timber structure. Dolauhiron Bridge (1773), was designed if not built by William Edwards, minister, stone mason and self-taught architect, who became world famous for the first bridge he ever built at Pontypridd in 1750. The single arched bridge with a span of 84 feet cost £800 and replaced a bridge one mile downstream swept away in a flood.

8. Tonn Farm.



tuaf gogledd-orllewin at y Gaer Rufeinig nesaf - Pumsaint, a oedd yn gwarchod Cloddfeydd Aur y Rhufeiniaid.

7. Pont Dolauhirion

Mae sôn mor bell yn ôl â 1396 am "bont Dolhir" a adeiladwyd o bren. Dyluniwyd Pont Dolauhirion (1773) gan William Edwards, oedd yn gyfrifol o bosibl am ei hadeiladu hefyd. Roedd yn weinidog, saer maen a phensaer hunan addysgiedig, a daeth yn fyd enwog am y bont gyntaf a adeiladodd ym Mhontypridd yn 1750. Pont un bwa yw Pont Dolauhirion sy'n 84 troedfedd o hyd, ac a gostiodd £800. Fe'i hadeiladwyd yn lle pont arall filltir i lawr yr afon a olchwyd i ffwrdd gan lifogydd.

8. Fferm Tonn

Dyma gartref y teulu Rees a Gwasg Tonn, sef yr argraffydd a'r cyhoeddwr adnabyddus William Rees (1808 - 1873). Roedd yn ŵr blaenllaw a gweithgar ym mywyd y dref a threfnodd gronfa i adeiladu Ysgol Thomas Phillips yn Llanymddyfri - Coleg Llanymddyfri erbyn hyn.

9. Y Bont Gadwyn

Roedd rhyd yn Llwyneclyn yn agos at bont bren ganoloesol Nicolas Sant. Adeiladwyd y "Bont Gadwyn" wreiddiol yn 1832 gan Ymddiriedolaeth Pont Tywi, ar ffurf pont grog gyda dylanwad pont Telford ar draws yr Afon Menai yn gryf arni. Adeiladwyd pont newydd yn 1883 ond mae enw'r Bont Gadwyn wedi aros.

10. Eglwys Dingat Sant

Mae'r gangell a phrif gorff yr eglwys yn dyddio o'r 13eg ganrif mwy na thebyg, a'r tŵr o'r 15fed ganrif. Mae'r ffaith fod yr eglwys wedi'i chysegru i Ddingat yn awgrymu fod yma fynwent ers cyn cyfnod y Normaniaid. Roedd Dingat yn un o feibion Brychan, pennaeth o'r 6ed ganrif o dras Gwyddelig a sylfaenodd Brycheiniog fel is-deyrnas iddo'i hun.

Home of the Rees family, giving its name to the Tonn Press, notably printer and publisher William Rees (1808-1873). He was prominent in the life of the town and organized the fund to build Thomas Phillips' School at Llandoverly - now Llandoverly College.

9. The Chain Bridge.

There was a ford at Llwyneclyn, close to the medieval timber bridge of Pont St. Nicholas. The original 'Chain-Bridge', a suspension bridge, was built in 1832 by the Towy Bridge Trust, heavily influenced by Telford's suspension bridge across the Menai Straits. Replaced in 1883, the new bridge is still called the Chain Bridge.

10. St. Dingat's Church

The nave and chancel are probably of 13th century date. The tower is probably 15th century. The dedication suggests an early, pre-Norman cemetery.

Dingat was one of the sons of Brychan, the 6th century chieftain of Irish origin, who founded his own sub-kingdom of Brycheiniog.



Barcud
Red Kite




Milltir / Miles
Cilomedrau / Km

1m



Nico
Goldfinch

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100023377



Llanymddyfri

Sefydlwyd Llanymddyfri oherwydd ei safle fel man pontio pwysig i'r afon Tywi. Sylweddolwyd hyn gan y Rhufeiniaid a adeiladodd gaer yma, a'r Normaniaid a adeiladodd gastell. Mae olion y castell i'w gweld o hyd. Datblygodd yn fan ymgynnull pwysig i'r porthmyn a'u Gwartheg Duon, cyn dechrau ar eu taith i'r ffin a marchnadoedd Lloegr. Mae'n parhau i fod yn ganolfan farchnad bwysig heddiw ac wedi llwyddo i gadw nifer o nodweddion dymunol a chymeriad tref farchnad o'r 18fed a'r 19eg ganrif. Mae ei leoliad gwledig yn ei gwneud yn ganolfan hwylus i ymwelwyr sydd eisiau profi harddwch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu'r brynau o amgylch Pumsaint, Rhandirmwyn a Llyn Brianne.

Mae'r afon Tywi, sy'n tarddu yn y brynau y tu draw i Rhandirmwyn, yn llifo ar hyd rhyw 112 km (70 o filltiroedd), a thrwy Argae Llyn Brianne, ar ei thaith i Fae Caerfyrddin. Mae canrifoedd o lifogydd gaeaf wedi creu pridd llifwaddodol ar lawr y dyffryn sy'n cynhyrchu porfa welltlog i fwydo diwydiant llaeth y Sir.

Mae'n werth crwydro strydoedd y dref a'r nifer o adeiladau cain, siopau nodweddiadol, caffis a siopau crefft sydd yno.



Gwennol y
Glennydd
Sand Martin



Gwennol y
Bondo
House Martin



Llywelyn ap Idris
Fychan

Llandovery

The town of Llandovery owes its origin to its position at an important bridging point on the River Tywi. This was recognised by the Romans who established a fort, and later by the Normans whose ruined castle can still be seen. It became an important assembly point for the drovers with their Welsh Black cattle before beginning their long trek to the border and the English markets beyond. Today, it is still an important market centre retaining much of the character and attractiveness of the 18th and 19th century market town. Its rural setting forms an attractive base for visitors wishing to explore the delights of the Brecon Beacons National Park or the hills around Pumsaint, Rhandirmwyn and Llyn Brianne.

The River Tywi which has its origins high in the hills beyond Rhandirmwyn (now intercepted by the Llyn Brianne Dam), flows some 112 km (70 miles) to the coast at Carmarthen Bay. Centuries of winter flooding have built up an alluvial soil in the valley bottom, producing the lush grass which supports the County's dairy industry.

It is well worth the visitor exploring the streets of the town and its many fine buildings and characterful shops, cafes and craft outlets.

Eisiau gwybod mwy?

Mae hwn yn un o gyfres o deithiau cerdded a argymhellir yn Sir Gaerfyrddin, am wybodaeth bellach ar hamdden awyr agored yn y Sir, ewch i:

www.discovercarmarthenshire.com

Sylwer. Dylid gwisgo esgidiau cerdded cryf am fod rhannau o'r llwybrau yn debyg o aros yn fwdlyd hyd yn oed yn ystod yr haf. Mae rhai llwybrau yn croesi, neu'n cysylltu â, heolydd ble mae angen bod yn wyliadwros os yr ydych yn cerdded yng nghwmni plant.

Want to know more?

This is one of a series of recommended walks in Carmarthenshire, for further information on outdoor leisure in the County please visit: www.discovercarmarthenshire.com

NB. Stout footwear is recommended as some sections of path may remain muddy even in summer. Some footpaths meet, or cross, short sections of highway where children should be closely supervised.

Trafnidiaeth Gyhoeddus:

I gael y wybodaeth ddiweddaraf ffoniwch
Linell Gymorth Cymru Gyfan ar
0871 2002 233

Public Transport:

For up-to-date information, phone the
All Wales Public Information Helpline:
0871 2002 233

